

# Gwneud i'r Gyfnewidfa Ddysgu Ryngwladol weithio i bob person ifanc yng Nghymru

Hydref 2021



*"Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n rhan o rywbeth arbennig, nad oeddwn i erioed wedi teimlo o'r blaen....Dysgais am barch, dysgais am deyrngarwch. Dysgais am lawer o bethau nad oeddwn i'n meddwl oedd erioed yn bodoli pan oeddwn i'n blentyn...pe bawn i ddim wedi mynd, mae'n debyg y byddwn i wedi marw neu yn y carchar. "*

Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i lansio'r Gyfnewidfa Ddysgu Ryngwladol (ILE) yn golygu na fydd profiadau newid bywyd a alluogir gan Erasmus + a chyllid Corfflu Undod Ewrop (ESC) yn cael eu colli i Gymru.

Amlygodd y Prif Weinidog Mark Drakeford bwysigrwydd addysg a dysgu heb fod yn ffurfiol ynghyd â gwirfoddoli fel rhywbeth hanfodol, ochr yn ochr ag astudio a lleoliadau gwaith, i ehangu gorwelion ac ehangu sgiliau allweddol.

Mae gwirfoddoli i sefydliad lleol, dielw yn arbennig o bwysig fel porth amgen i'r rhai sydd ddim yn dilyn gyrfaedd trwy addysg uwch ac mae'n sylfaen hanfodol i ILEP ddod yn rhaglen gynhwysol ledled Cymru.

I bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig sy'n ei chael hi'n anodd cyflawni fel arall, mae natur agored gwirfoddoli sy'n gwerthfawrogi cyfraniad a chyfranogiad ar bob lefel, yn darparu lle i bawb i gyflawni. Cyflwynir y cyfleoedd trwy ddysgu trwy brofiad gan adeiladu canlyniadau allweddol fel gwytnwch, hyder a sgiliau perthynas.

TUDALEN UN

## Stori Callum



Pan drodd yn 16 oed, roedd Callum yn mynd i drafferthion gyda chyffuriau a'r heddlu.

*"Roeddwn i'n teimlo rhagfarn tuag at rai cenedligrwydd ac roeddwn i'n gwranddo ar bobl hyn yr oeddwn i'n eu trin fel fy eilunod - pe bydden nhw'n dweud nad oeddwn nhw'n hoffi rhywun, doeddwn i ddim yn eu hoffi nhw chwaith."*

Fe'i cyfeiriwyd gan ei weithwyr ieuencid i gymryd rhan mewn project yn yr Eidal a gwnaeth bythefnos o waith amgylcheddol.

*"Roedd yn agoriad llygad go iawn ac yn newid bywyd, oherwydd i fachgen 16 oed fel fi, hwn oedd fy nhro cyntaf i fod oddi cartref ar fy mhen fy hun."*

Parhaodd Callum i deithio, gan dreulio 2 fis yng Ngwlad Pwyl ac yna lleoliad gwirfoddol 8 mis yn Lithwania. Yn y project olaf hwn roedd Callum yn gwirfoddoli ar Barc Cenedlaethol cyn dychwelyd adref.

*"Pan ddes i'n ôl roeddwn yn llawer mwy fy hun. Rwy'n teimlo'n fwy ysbrydol ynof fy hun. Rwy'n fy adnabod, rwy'n gwybod beth rwy'n ei hoffi a sut hoffwn gael fy nhrin. Felly rwy'n trin pobl yn y ffordd honno. Yn gyffredinol, roeddwn i'n teimlo fy mod i'n rhan o rywbeth arbennig, na themlais erioed o'r blaen...."*

*"Dysgais am barch, dysgais am deyrngarwch. Dysgais am lawer o bethau nad oeddwn i'n meddwl oedd erioed yn bodoli pan oeddwn i'n blentyn. Rwy'n credu mai EVS oedd yr iachâd gorau ar gyfer iechyd meddwl - yn well nag unrhyw gyffur, unrhyw therapydd neu feddyg."*

*"Rwy'n credu mai'r peth gorau rwy'n ei gofio o'r projectau yw'r teimlad o hapusrwydd."*

Mae projectau gwirfoddol yn anelu at bwrpas cyffredin, ac mae cyfranogwyr yn profi gwaith tîm, arferion, sgiliau newydd, cyflawniad, balchder ac ymdeimlad o berthyn.

Mae hyn yn arbennig o werthfawr i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig a allai ei chael yn anodd cyflawni'r enillion hyn fel arall - mae natur agored gwirfoddoli (gwerthfawrogi pob lefel o gyfraniad a chyfranogiad) yn darparu lle i bawb ei gyflawni.

[Darllenwch stori lawn Callum >>](#)



## Mewn Rhaglen ILE Iwyddiannus...

### Mae gan brofiadau dysgu anffurfiol le cyfartal

Mae addysg a dysgu anffurfiol wedi'i strwythuro, ei drefnu a'i gynllunio i gyflawni canlyniadau dysgu penodol i'r cyfranogwyr ond mae'n digwydd y tu allan i amgylcheddau dysgu ffurfiol.

Mae gwaith ieuencid yn darparu cyfleoedd hanfodol i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon, cynhyrchiol a phroffidiol - cydrannau hanfodol wrth drosglwyddo i fod yn oedolion ac annibyniaeth lawn(ach).

Mae addysg a dysgu anffurfiol o werth arbennig yn enwedig i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig oherwydd gallai eu profiadau mewn addysg ffurfiol a chyfleoedd bywyd fod wedi bod yn negyddol ac yn gyfyngedig iawn.

## Profiadau ieuencid cynhwysol

Mae'r ILEP yn gyfle i sicrhau bod profiadau cyfnewid yn wirioneddol gynhwysol - eu bod yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol trwy brofiadau addysgol rhyngwladol, yn herio barn eithafol a rhagfarnllyd ac yn adeiladu cyfleoedd Cymru i fod yn genedl sy'n edrych tuag allan gyda dinasyddion sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Mae ymchwil wedi dangos bod plant yn datblygu rhagfarn yn ifanc, ac yn dechrau arddangos ystrydebau rhyw, rhagfarn hiliol a hoffter o'u hil eu hunain mor ifanc â thair neu bedair oed.

Fodd bynnag, dangoswyd bod cyfeillgarwch rhwng grwpiau, sy'n rhychwantu hil, rhyw a chenedligrwydd, yn gwella empathi a dylanwad yn erbyn agweddau rhagfarnllyd.

### Mae Gwerthoedd, Gwybodaeth a Sgiliau yn sail i'r holl gyfnewidfeydd rhyngwladol

Heddwch a chydysafiad fu'r gwerthoedd craidd sy'n gyrru cyfnewidiadau ystyrlon dros ddegawdau.

*"Cyfnewidfa oedd syniad y gwrsyll heddwch: siarad â'ch cydwladwyr a thrafod llif rhydd o syniadau... trwy ymweliadau a phrofiadau rydych chi'n eu darganfod am y person arall... mewn ffordd nad sy'n artiffisial o gyflwyno gwahanol safbwyntiau a chaniatáu pobl i ymgysylltu."*

Yn yr un modd ag y mae gwerthoedd yn cael eu gyrru trwy ddylunio a darparu cwricwlwm newydd Cymru, credwn ei bod yn hanfodol bod agweddau a gwerthoedd yn sail i ddylunio a darparu gweithgareddau ILEP. Gellir dysgu'r wybodaeth a'r sgiliau i bobl ifanc i fod yn ddinasyddion moesegol, ond ni fyddant yn gallu gweithredu ar y sgiliau hyn heb annog yr agweddau cywir.

## AM Y WCIA

Mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) yn elusen gofrestredig sy'n ceisio ysbrydoli pobl i ddysgu am faterion byd-eang a gweithredu arnynt fel y gall pawb yng Nghymru gyfrannu at greu byd tecach a mwy heddychlon.

Cyflawnir hyn trwy ddarparu rhaglen ddysgu fyd-eang gyffrous ac arloesol; ysbrydoli cymunedau a sefydliadau ledled Cymru i weithredu'n fyd-eang, ac adeiladu partneriaethau byd-eang sy'n cysylltu Cymru a'r byd.

Mae'r papur hwn yn seiliedig ar ddegawdau o brofiad WCIA a'n partneriaid o redeg a chymryd rhan mewn projectau Erasmus+ ac ESC, a thrwy sgysrsiau gyda chyfranogwyr y gorffennol a'r presennol, ac mae'n adlewyrchu'r sgysrsiau hyn ac yn gwneud argymhellion i sicrhau bod yr ILEP yn llwyddiant i'r holl gyfranogwyr, cymdeithas Gymru ehangach a'n partneriaid ledled y byd.

## WCIA A CHYFNEWID RHYNGWLADOL

Rydym wedi cymryd rhan mewn rhaglenni Erasmus+ sy'n ymwneud â chyfnewidiadau ysgolion a phroffesiynol ers blyneddau lawer. Ym mis Ebrill 2020, fe wnaethom uno ag UNA Exchange, yr unig sefydliad yng Nghymru sy'n cydlynu projectau ESC ac yn darparu mynediad at wersylloedd gwaith Cynghrair Sefydliadau Gwasanaeth Gwirfoddol Ewropeaidd.

Mae creu profiadau trawsnewidiol i bobl ifanc yng Nghymru yn dibynnu ar bartneriaethau cryf a chyfeillgarwch parhaol â phartneriaid a gwirfoddolwyr tramor; mae hyn yn rhywbeth rydym wedi ymrwmo iddo am y 47 mlynedd diwethaf.

## Mae gwirfoddoli grŵp yn elfen allweddol

Mae gwirfoddoli grŵp yn un math o weithgaredd dysgu addysgol anffurfiol a gall ddarparu llwybr ar gyfer cyfranogiad llwyddiannus o ystod eang o bobl ifanc.

Mae'n weithgaredd strwythuredig, wedi'i drefnu mewn partneriaeth â chymuned/grŵp lleol, sydd dros 2-3 wythnos yn darparu set o nodau cyraeddadwy cyffredin ar gyfer y rhai sy'n byw ac yn gweithio gyda'i gilydd.

Mae cyfranogwyr yn magu ymdeimlad o berthyn, o fewn eu tîm neu grŵp, a'r cyfle i ddarganfod eu cryfderau a'u galluoedd eu hunain - mae yna lawer o rolau i'w cyflawni ac mae gan bob cyfranogwr ran i'w chwarae.

Gyda'r math cywir o baratoi a chefnogaeth o flaen llaw ac yn ystod y gweithgaredd, mae'n anochel y gellir cwrdd â'r heriau a fydd yn codi, gan herio safbwyntiau a naratifau pobl ifanc amdanynt eu hunain a'u galluoedd.

## Canolbwyntio ar yr unigolyn: pyrth lluosog i gyfnewid

Dylai pobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi allu cyrchu cyfle cyfnewid priodol, p'un a ydyn nhw'n unigolyn neu drwy ysgolion, clybiau ieuenctid, addysg uwch neu addysg bellach.

*"Newidiodd y profiad o fod yn wirfoddolwr fi. Rwyf wedi newid fy nghynlluniau ar gyfer y dyfodol yn llwyr, diolch i'r llu o bethau a sgiliau rydw i wedi'u dysgu a'u darganfod."*

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau project adeiladu cymunedol sy'n canolbwyntio ar undod wedi profi'n effeithiol wrth leihau anawsterau iechyd meddwl trwy wella mecanweithiau ymdopi, adeiladu gwytnwch, a chanoli cwrmpawdau moesol, clustogi effeithiau ansicrwydd a straen a achosir gan y pandemig.



## Yn gynhwysol i'r rhai heb adnoddau

Yn ddelfrydol, mae lleoliadau'n cael eu hariannu'n llawn ar gyfer pob person ifanc, ac yn bendant ar gyfer pobl ifanc o gefndiroedd ymylol a difreintiedig.

*"Mae gan amrywiaeth wyneb. Mae gan amrywiaeth enw. Amrywiaeth yw fy ffrind."*

Mae SALTO-YOUTH, rhwydwaith hyfforddi a chefnogi'r UE, yn darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer deall cynhwysiant ac ehangu cyfranogiad.

Mae SALTO yn canolbwyntio ar saith rhwystr: Cymdeithasol, Economaidd, Anabledd, Addysgol, Diwylliannol, Iechyd a Daearyddol. Rhaid cefnogi pobl ifanc sy'n wynebu neu'n profi cyfleoedd cyfyngedig o ganlyniad i un neu fwy o'r rhwystrau hyn i'w goresgyn er mwyn cymryd rhan. Mae cylch hyfforddi a all gefnogi pobl ifanc cyn, yn ystod ac ar ôl, gyda gwersi myfyrio ac adeiladu CV a mewynoli, yn hanfodol, i'r bobl ifanc eu hunain, gan alluogi dealltwriaeth ryngddiwylliannol ddwfn a meithrin perthnasoedd cyfartal rhwng cyfoedion.

